# SL(6)470 - Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") i ddiwygio'r meini prawf cymhwystra ar gyfer cymorth grant sydd ar gael i aelwydydd incwm isel sy'n byw yn y cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni yng Nghymru (gradd EPC o E neu lai) drwy:

- ehangu cymhwystra i aelwydydd incwm is nad ydynt yn derbyn budd-daliadau sy'n destun prawf modd;
- cynnwys lwfans ceisio gwaith ar y rhestr o fudd-daliadau cymwys sy'n destun prawf modd;
- ymestyn cymhwystra i anheddau sydd â dosbarthiad Tystysgrif Perfformiad Ynni o D neu lai lle mae'r ceisydd naill ai ar fudd-daliadau sy'n destun prawf modd neu o aelwyd incwm is a bod gan yr ymgeisydd gyflwr anadlol cronig, cyflwr cylchrediad y gwaed cronig neu gyflwr iechyd meddwl cronig; a
- dileu'r cyfyngiad ar ailadrodd ceisiadau gan agor y posibilrwydd o roi grantiau pellach i anheddau cymwys sydd wedi elwa o'r blaen ar gael grantiau o dan Reoliadau 2011.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 4(b) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o *"budd-dal sy'n destun prawf modd"* yn rheoliad 2 o Reoliadau 2011. Mae'r diffiniad presennol yn Rheoliadau 2011, yn y testun Cymraeg, yn defnyddio llythrennau'r wyddor Saesneg (yn hytrach na'r wyddor Gymraeg) i rifo paragraffau o ganlyniad i'r amnewid a wneir gan reoliad 3 o Reoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2013 (O.S. 2013/2843 (Cy.270)). Mae'r diwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r patrwm o ddefnyddio'r wyddor Saesneg yn y testun Cymraeg.

Gallai'r Rheoliadau hyn fod wedi bod yn gyfle i gywiro'r gwall hwnnw, yn hytrach na pharhau i ddefnyddio'r wyddor Saesneg ar gyfer rhaniadau lle y dylid defnyddio'r wyddor Gymraeg.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi'r geiriau "is-baragraff (i)" yn lle testun yn rheoliad 9(1)(a)(ii) o Reoliadau 2011. Fodd bynnag, mae'r disgrifiad hwn yn anghywir ac, yn lle hynny, dylai gyfeirio at *"paragraff (i)"*.

Yn ogystal, mae rheoliad 9(1)(a) o Reoliadau 2011 yn cynnwys gwall hanesyddol, sef cyfeiriad anghywir at *"paragraff (b)"*, yn hytrach nag *"is-baragraff (b)"*. Gallai'r Rheoliadau hyn fod wedi bod yn gyfle i gywiro'r gwall hwnnw.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn rheoliad 7 yn defnyddio'r term *"cais gweithfeydd"*. Fodd bynnag, nid yw'r term hwnnw wedi'i ddiffinio at ddiben y Rheoliadau hyn, er iddo gael ei ddiffinio yn rheoliad 2 o Reoliadau 2011.

Er ein bod o'r farn nad yw'r diffyg diffiniad hwn yn ymyrryd â dehongliad y ddarpariaeth drosiannol honno, a ystyriwyd diffinio'r term hwnnw at ddibenion y Rheoliadau hyn (er enghraifft, drwy gyfeirio at reoliad 2 o Reoliadau 2011), er mwyn cynorthwyo hygyrchedd?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:** Nodir y pwynt hwn. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw ddiwygiad ar hyn o bryd. Mae rheoliad 2 o'r prif Reoliadau wedi ei ddrafftio yn y ffordd hon ers 2013 ac nid yw'r drafftio, yn ein barn ni, yn creu unrhyw ansicrwydd na diffyg eglurder i'r darllenydd fel bod angen ei ddiwygio mewn unrhyw ffordd.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:** Nodwn y pwyntiau craffu ar rinweddau sy'n ymwneud â rheoliad 6 o'r Rheoliadau a'r gwall hanesyddol yn rheoliad 9(1)(a) o'r prif Reoliadau. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod y drafftio presennol yn creu unrhyw ansicrwydd na diffyg eglurder i'r darllenydd fel bod angen ei ddiwygio mewn unrhyw ffordd ar hyn o bryd, ond caiff y gwallau hyn eu cywiro y tro nesaf y caiff y prif Reoliadau eu diwygio.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:** Nodir y pwynt hwn. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y drafftio yn glir ac nad oes angen ei ddiwygio mewn unrhyw ffordd.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.